**Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2022**

**373- Beirniadaeth Cyfansoddi Sgript Wreiddiol Bl 10 a dan 19 oed**

**Beirniad – Lleucu Sion**

Er mai dim ond un sgript ddaeth i law eleni, mae Gwenllian King yn llawn haeddu'r wobr gyntaf. Dyma awdur sy'n gallu ysgrifennu deialog, a sy'n gweld y cymeriadau wrth ysgrifennu. Mae'r darn yn cynnig drama a thensiwn o'r eiliad gyntaf ac mae'r gynulleidfa yn mynd ar antur emosiynol. Mae Gwenllian yn llwyddo i gyfleu'r ddau gymeirad yn glir iawn mewn darn byr o waith, ac mae gan yr awdur y ddawn i ddweud digon heb ddweud gormod. Mae na lot o gwestiynau yn codi wrth ddarllen, ac mae hyn yn wych wrth ysgrifennu sgript gan bod y gynulleidfa yn gadael eisiau gwybod mwy. Ar adegau, mae'r ddeialog yn gallu swnio ychydig bach yn ffurfiol. Mae angen cofio bod angen i ddeialog swnio mor naturiol a phosib. Mae gan Gwenllian wir dalent, ac rwy'n ei hannog hi i barhau i ysgrifennu, dwi'n edrych ymlaen i weld beth ddaw nesaf gan yr awdur ifanc yma.

1af - Gwenllian King